BookTrust Cymru
Dechrau Da Bookstart



## Ynghylch BookTrust Cymru

Mae BookTrust Cymru yn gweithio i ennyn cariad at ddarllen ymhlith plant, oherwydd mi wyddom fod darllen yn gallu trawsnewid bywydau. Bob blwyddyn rydym yn cyrraedd miloedd o blant a theuluoedd gyda'n llyfrau ac adnoddau, ac yn helpu i'w rhoi ar eu ffordd ar eu siwrnai ddarllen. Ein nod yw dangos buddiannau darllen i blant sydd â'r angen mwyaf, gyda phlant a theuluoedd yn ganolog wrth inni arloesi, dylunio a datblygu ein rhaglenni.

## Buddiannau darllen

Mi wyddom fod darllen yn dod â buddiannau sylweddol a phellgyrhaeddol sy'n gallu cael effaith bositif gydol oes ar fywydau plant. Mae plant sy'n darllen yn fwy tebygol o oresgyn anfantais, o wneud yn well yn yr ysgol ac o fod yn hapusach ac iachach.

Mi wyddom hefyd er bod y rhan fwyaf o rieni a gofalwyr yn credu bod darllen yn bwysig i'w plentyn, mae dros eu chwarter yn teimlo nad yw darllen gyda'u plentyn yn hawdd ac nid yw 1 o bob 5 yn teimlo'n hyderus i ddewis llyfrau y bydd eu plant yn eu mwynhau.

## Pecynnau Dechrau Da Blynyddoedd 1-2 a Dechrau Da Blynyddoedd 3-4

Mae pecynnau Dechrau Da Blynyddoedd 1-2 a Dechrau Da Blynyddoedd 3-4 yn cynnwys adnoddau i deuluoedd â phlant 1-4 oed, a all wynebu anfantais neu sydd angen mwy o help i wneud cyd-ddarllen yn rhan reolaidd o'u bywydau.

Mae'r pecynnau hyn ar gael i chi i'w rhoi fel rhodd i'r teuluoedd rydych yn gweithio â hwy. Mae'r pecynnau hyn yn cynnwys awgrymiadau a chyngor i helpu teuluoedd i fynd ati i rannu storïau, gan gynnwys dolen at Hyb Teuluoedd Dechrau Da BookTrust Cymru: **booktrust.org.uk/cy-gb/familyhubwales** lle gall teuluoedd ddod o hyd i ragor o weithgareddau ac argymhellion am lyfrau i barhau ar eu siwrnai ddarllen.

Am syniadau ar sut i roi eich pecynnau fel rhodd, ewch i Hyb Adrodd Straeon Dechrau Da BookTrust Cymru yn **booktrust.org.uk/cy-gb/storytellerwales**, hyb digidol pwrpasol ar gyfer ein partneriaid blynyddoedd cynnar. Gallwch hefyd gofrestru ei gael ein Cylchlythyr Blynyddoedd Cynnar i gael diweddariadau rheolaidd gennym **booktrust.org.uk/newsletter**

## Dyma rai awgrymiadau gwerthfawr i annog teuluoedd i ddechrau darllen

- Nid oes ffordd anghywir o rannu stori. Mae cael hwyl gyda'ch gilydd yn llawer pwysicach na chael y geiriau'n 'iawn'!
- Nid oes yn rhaid darllen llyfr o glawr i glawr i gael y buddiannau.
- Nid yw'n gwneud gwahaniaeth pwy sy'n rhannu storïau, gall unrhyw un ddarllen â phlant!
- Nid yw byth yn rhy hwyr i ddechrau rhannu storïau.
- Mi all dod o hyd i storïau lle mae plant yn gweld eu hunain, eu bywydau neu eu profiadau ynddynt danio diddordeb mewn darllen a gall roi hwb i'w hunan barch.

## Rydym yn gwerthfawrogi eich adborth!

Gadewch inni wybod sut hwyl ydych yn ei gael gyda'ch pecynnau ac adnoddau drwy gwblhau arolwg dwy funud yn
**booktrust.org.uk/storytellerfeedbackwales**



**booktrust.org.uk/cymru**
@BookTrustCymru

©2023 BookTrust. Rhif elusen / Charity Number: 313343

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government